# Cyngor Sir Ddinbych

# Ailgylchu a gwastraff yn Sir Ddinbych: ein cynllun pum mlynedd ar gyfer 2027-2032

## Pecyn ymgynghori preswylydd

Helpwch ni i siapio ein blaenoriaethau ar gyfer gwasanaeth ailgylchu a gwastraff y cartref yn Sir Ddinbych am y pum mlynedd nesaf.

## Beth ydym yn ei wneud?

Rydym ni'n llunio cynllun strategol pum mlynedd o hyd ar gyfer gwasanaeth ailgylchu a gwastraff y cartref yn Sir Ddinbych.
Bydd y cynllun pum mlynedd yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau canlynol:
Atal a lleihau: allwn ni helpu preswylwyr i atal neu leihau faint o wastraff sy'n cael ei greu yn y lle cyntaf?
Ailddefnyddio a thrwsio: allwn ni helpu preswylwyr i wneud y gorau o'r eitemau sydd ganddynt eisoes, ac arbed pethau rhag mynd i safleoedd tirlenwi?
Ailgylchu: allwn ni helpu preswylwyr i'n helpu ni i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol o 70%?

## Pam ydym ni'n gwneud hyn?

- Dyma'r amser cywir
- Yn 2024 fe wnaethom gyflwyno newidiadau mawr i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu ymyl palmant yn Sir Ddinbych. Roedd hyn yn cynnwys symud i ddull "didoli ar ymyl palmant" o gasglu er mwyn cyrraedd gofynion glasbrint casgliadau Llywodraeth Cymru.
- Erbyn hyn mae gennym ddigon o ddata i ddeall sut mae'r gwasanaeth yn gweithio a lle mae angen i ni ganolbwyntio i wneud gwelliannau.
- Mae angen i ni sicrhau bod ein gwasanaeth yn wydn er mwyn ymdopi â rhagor o newidiadau deddfwriaethol i sut mae Cynghorau lleol yn rheoli casgliadau gwastraff ac ailgylchu.
- Ar hyn o bryd, rydym ni'n agos at, ond ddim yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70% o holl wastraff aelwydydd.

Bydd llunio a chyflwyno cynllun strategol rŵan yn helpu i ni ystyried yr holl ofynion hyn, ac fe allwn ni lunio cynlluniau gweithredu i sicrhau ein bod ni'n eu bodloni nhw.

## Beth ydym ni eisiau ei wybod?

Hoffem glywed eich barn.

Mae gennym ofynion deddfwriaethol sydd wedi ein harwain wrth lunio ein blaenoriaethau strategol, ond mae hi'n bwysig ein bod yn deall beth sy'n bwysig i chi o ran y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn Sir Ddinbych.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech lenwi ein holiadur ymgynghori.

Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am:

- Bob un o'n blaenoriaethau, yn seiliedig ar y pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn y pum mlynedd nesaf.
- Rhai cwestiynau am eich arferion presennol o ran gwastraff ac ailgylchu.
- Fe fydd yna le ar ddiwedd yr holiadur i chi ddweud wrthym am unrhyw beth yr hoffech ei weld.

## Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud?

Rydym wedi defnyddio llawer o ddadansoddiad ystadegol, o Sir Ddinbych ac yn genedlaethol, i'n helpu yng nghamau cyntaf datblygu ein blaenoriaethau gwastraff ac ailgylchu strategol. Bydd eich adborth yn helpu i ni ddeall pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld, a sut y gallwch chi ein helpu i wneud Sir Ddinbych y gorau all fod o ran ailgylchu.

## Sut ellwch chi gymryd rhan?

**Ar-lein:** ewch i www.sirddinbych.gov.uk i gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein

**Papur:** Mae fersiwn bapur o'n holiadur ymgynghori wedi'i atodi i'r pecyn ymgynghori hwn.

Gellir cael copïau papur o'r arolwg a'u dychwelyd i unrhyw Llyfrgell/Siop Un Alwad Cyngor Sir Dinbych

### Y dyddiad cau ar gyfer pob ymateb yw: 18 Hydref 2026.

# Ailgylchu a gwastraff yn Sir Ddinbych: ein cynllun pum mlynedd ar gyfer 2027-2032

## Holiadur yr ymgynghoriad gyda phreswylwyr:

Pwrpas yr holiadur hwn yw casglu eich adborth am ein syniadau cychwynnol ar gyfer ein cynllun pum mlynedd Ailgylchu a Gwastraff ar gyfer 2027-2032.

Bydd y cynllun yn ein helpu ni i nodi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaeth ailgylchu a gwastraff yn Sir Ddinbych am y pum mlynedd nesaf. Unwaith bydd y cynllun ar waith, byddwn yn gallu creu cynlluniau gweithredu neu bolisïau i'n helpu ni i gyflawni ein nodau ar gyfer y bum mlynedd.

Yn holiadur yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi, ac yna byddwn yn gofyn cwestiynau sy'n berthnasol i bob un o'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Bydd ein blaenoriaethau allweddol yn seiliedig ar egwyddorion yr hierarchaeth wastraff. Mae hyn yn golygu ein bod eisiau canolbwyntio ar:

1. Atal a gostwng - rydym eisiau stopio gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf
2. Atgyweirio ac ailddefnyddio - rydym eisiau defnyddio pethau am gyfnod hirach fel nad oes angen eu rhoi yn y bin
3. Ailgylchu - pan mae gwastraff yn anochel, rydym eisiau sicrhau bod gymaint â phosibl ohono yn gallu cael eu hailgylchu mewn ffordd sy'n rhwydd ac yn gyfleus i bawb

Yn holiadur yr ymgynghoriad, byddwn yn dweud wrthoch chi beth sydd gennym mewn golwg i'n helpu ni i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn, a byddwn yn gofyn i chi a ydych yn cytuno gyda hyn ai peidio. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich arferion a'ch ymddygiad presennol tuag at bob un o'r nodau hyn, fel y gallwn ddeall sut rydych yn teimlo amdanynt ar hyn o bryd.

**Nodwch:** nid yw'r holiadur hwn yn gyfle i ddarparu adborth ar y gwasanaeth ailgylchu gwastraff presennol, nac ychwaith i adrodd am faterion ynglŷn â chasglu. Ar gyfer cyngor cyffredinol a chefnogaeth gydag ailgylchu gwastraff yn Sir Ddinbych, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch 01824 706000

***Datganiad Preifatrwydd:*** *Er mwyn annog gonestrwydd o fewn yr ymatebion, mae'r holiadur hwn yn ddienw, ac ni fyddwn yn gofyn am wybodaeth bersonol, neu unrhyw wybodaeth a fyddai'n debygol o'ch nodi chi. Byddwn yn gofyn cwestiynau cyffredinol i chi am gynnwys eich aelwyd, a bydd cyfle i chi lenwi rhai cwestiynau monitro cydraddoldeb dewisol ar ddiwedd yr holiadur. Bydd 'rhain yn cael eu defnyddio i'n helpu ni i nodi a oes patrymau o fewn rhanbarthau daearyddol penodol neu grwpiau penodol o fewn cymunedau Sir Ddinbych a all effeithio ar ymddygiadau neu ddulliau o ran arferion ailgylchu a gwastraff. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych chi yn cael ei defnyddio i gefnogi datblygiad cynllun pum mlynedd y Cyngor ar gyfer ailgylchu a gwastraff yn unig, ac ni fydd yn cael ei rhannu gydag unrhyw dimau neu sefydliadau nad ydynt yn cefnogi datblygiad y cynllun. Mae'r cynllun yn cael ei gefnogi gan WRAP a Phartneriaethau Lleol.*

## Polisi dim goddefgarwch

Er yr hoffwn annog gonestrwydd o fewn yr ymatebion, rydym yn gofyn bod tôn yr ymatebion yn cael ei chadw'n sifil ac yn gwrtais. Bydd unrhyw ymateb sy'n cynnwys iaith ymosodol neu ddifenwol yn cael ei dynnu, ac ni fyddwn yn ei gynnwys yn y dadansoddiad terfynol o'r ymgynghoriad.

**Canllawiau ar lenwi'r holiadur hwn:**

Mae'r holiadur hwn yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau "ticio blwch", a gofod er mwyn i chi ysgrifennu eich sylwadau eich hun.

Gwnewch eich gorau i ateb y cwestiynau ticio blwch. **Peidiwch ag ychwanegu neu ysgrifennu eich ymatebion eich hun i'r cwestiynau hyn.** Gallwch ysgrifennu sylwadau yn y blychau a ddarperir

Gallwch lenwi'r holiadur hwn a'i ddychwelyd i unrhyw Lyfrgell Cyngor Sir Ddinbych, neu Siop Un Alwad yn ystod eu horiau agor arferol.

## Y dyddiad cau ar gyfer pob ymateb yw 18 Hydref 2026

# Adran 1: Amdanoch chi

Yn yr adran hon, byddwn yn gofyn ychydig o gwestiynau amdanoch chi. Bydd y cwestiynau hyn yn ein helpu i groesgyfeirio data, a nodi a oes unrhyw dueddiadau sy'n effeithio cymunedau, aelwydydd neu ranbarthau daearyddol penodol o fewn Sir Ddinbych.

Defnyddir y wybodaeth hon i nodi camau gweithredu a fydd yn cefnogi gweithrediad ein cynllun pum mlynedd

---

## Lle ydych chi'n byw?

Os nad yw eich tref, pentref neu gymuned wledig yn cael ei rhestru, dewiswch yr opsiwn agosaf posib.

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Y Rhyl | ❒ |
| Prestatyn | ❒ |
| Rhuddlan | ❒ |
| Bodelwyddan | ❒ |
| Llanelwy | ❒ |
| Dinbych | ❒ |
| Rhuthun | ❒ |
| Llangollen | ❒ |
| Corwen | ❒ |

## Ydych chi'n byw mewn…?

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Tŷ sengl | ❒ |
| Tŷ pâr | ❒ |
| Tŷ teras | ❒ |
| Fflat unigol neu stiwdio mewn bloc o fflatiau | ❒ |
| Tai Amlfeddiannaeth (HMO) | ❒ |
| Arall | ❒ |

Os ydych chi'n dewis "arall" dywedwch wrthym pa fath o eiddo yr ydych yn byw ynddo:

## Faint o oedolion sy'n byw yn eich aelwyd?

*Ysgrifennwch rif yn y blwch isod:*

| |
|---|
| |

## Faint o blant sy'n byw yn eich aelwyd?

*Ysgrifennwch rif yn y blwch isod:*

| |
|---|
| |

## Oes gan unrhyw un yn eich aelwyd anabledd a allai effeithio ar allu eich aelwyd i reoli eich ailgylchu a gwastraff?

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Oes | ❐ |
| Na fyddai | ❐ |

## Pwy sy'n gyfrifol ***yn bennaf*** am reoli eich ailgylchu a'ch gwastraff yn eich aelwyd?

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Fi fy hun | ❐ |
| Partner neu briod | ❐ |
| Rhiant neu ofalwr | ❐ |
| Gofalwr sy'n cael ei dalu | ❐ |
| Mae pawb yn fy aelwyd sy'n gallu gwneud hynny, yn cyfrannu at ddidoli'r ailgylchu a'r gwastraff | ❐ |

# Ein blaenoriaethau ar gyfer atal a lleihau gwastraff

Dan yr "hierarchaeth wastraff", atal gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf yw'r cam pwysicaf er mwyn atal eitemau rhag cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi neu halogi'r amgylchedd. Mae rhai newidiadau deddfwriaethol sy'n helpu gydag atal gwastraff, gan gynnwys pethau fel ffi orfodol ar gyfer bagiau plastig untro, Byddwn, fel cyngor sir, yn canolbwyntio ar gefnogi preswylwyr i feddwl am beth maent yn ei brynu, ac yn ceisio deall sut y gallwn helpu preswylwyr i atal gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf.

## Ein blaenoriaethau allweddol drafft ar gyfer atal a lleihau gwastraff yw:

1. Lleihau'r swm o wastraff bwyd sy'n mynd i mewn i finiau/sachau gwastraff cyffredinol (dyma finiau olwyn neu sachau ar gyfer deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu)
2. Lleihau'r cyfanswm o wastraff a ellir ei ailgylchu yn y Trolibocs/biniau ailgylchu sych neu mewn Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref (HWRCs), rhag mynd i mewn i'r gwastraff cyffredinol

Rydym yn gwybod y byddai ychydig dan hanner y gwastraff sydd yn mynd i mewn i finiau/sachau gwastraff ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych wedi cael ei ailgylchu, a thua hanner o hynny (22% o gyfanswm y gwastraff) yn wastraff bwyd.

Mae astudiaethau Cymru gyfan yn dangos bod tua 30% o wastraff bwyd sy'n cael ei daflu i ffwrdd i'r biniau/sachau gwastraff cyffredinol dal i fod mewn dyddiad neu mewn cyflwr da yn gyffredinol erbyn iddo gyrraedd cyfleusterau didoli lleol, sy'n golygu y byddai'r bwyd wedi gallu cael ei fwyta.

**Hoffwn i chi edrych ar bob un o'n blaenoriaethau ar gyfer atal a lleihau gwastraff diangen, a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda nhw:**

*Dewiswch un opsiwn yn unig ym mhob rhes*

| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Hyrwyddo menter Caru Bwyd Casáu Gwastraff i helpu pobl i wneud y mwyaf o'r bwyd maent yn ei brynu | ☐ | ☐ |
| Annog pobl i ddefnyddio cynnyrch y gellir eu hailddefnyddio a'u hail-lenwi | ☐ | ☐ |
| Adolygu a gwella ein cynllun clytiau go iawn | ☐ | ☐ |
| Edrych ar gefnogi cynlluniau rhannu megis Llyfrgelloedd Pethau, a llyfrgell o gyfarpar megis peiriannau pŵer efallai y mae pobl prin yn eu defnyddio | ☐ | ☐ |
| Gweithio gydag ysgolion, preswylwyr a busnesau i roi cyngor ymarferol ar atal gwastraff | ☐ | ☐ |

# Deall eich arferion ynghylch creu neu atal gwastraff bwyd

- Rydym yn profi argyfwng costau byw, ac rydym yn gwybod bod bwyd yn ddrud.
- Rydym yn gwybod, yn Sir Ddinbych, bod 22% o wastraff mewn biniau/sachau gwastraff cyffredinol yn ôl pwysau, yn wastraff bwyd.
- Mae astudiaethau Cymru gyfan yn dangos bod tua 30% o'r bwyd hwn yn fwytadwy.
- Rydym yn darparu casgliadau ailgylchu gwastraff bwyd wythnosol a bagiau gwastraff bwyd am ddim er mwyn gwneud ailgylchu bwyd mor rhwydd â phosib.
- Rydym yn dymuno deall pam fod gwastraff bwyd yn parhau i gael ei roi mewn biniau/sachau gwastraff cyffredinol.

Bydd y set nesaf o gwestiynau yn ein helpu i ddeall beth rydych yn gwybod am sut rydym yn ailgylchu bwyd yn Sir Ddinbych.

**Ydych chi erioed wedi gwneud unrhyw un o'r canlynol?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig ym mhob rhes*

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| Taflu bwyd sydd mewn dyddiad i'r bin/sach gwastraff cyffredinol | ❐ | ❐ |
| Taflu bwyd sydd wedi pasio eu dyddiad i'r bin/sach gwastraff cyffredinol | ❐ | ❐ |

**Os ydych wedi taflu bwyd mewn dyddiad i'r bin, pam na wnaethoch ei ddefnyddio?**

*Dewiswch yr holl ddewisiadau sy'n berthnasol i chi. Os nad ydych wedi taflu bwyd mewn dyddiad i'r bin, gallwch fynd i'r cwestiwn nesaf*

| | |
|---|---|
| Fe wnes i ei brynu ac yna newid fy meddwl | ❐ |
| Fe wnes i ei brynu ar gyfer rhywun arall, ac nid oeddent ei eisiau (e.e. partner/priod, unrhyw blant yn yr aelwyd) | ❐ |
| Daeth fel rhan o becyn, ac nid oeddwn eisiau/angen y cyfan | ❐ |
| Fe wnes i ei brynu ar gynnig arbennig (e.e. costyngiad sticeri melyn neu Too Good To Go) ond yna newid fy meddwl | ❐ |
| Fe wnes i ei brynu, ac yna sylweddoli fod yna gynhwysyn neu alergen ynddo nad ydw i'n gallu ei fwyta | ❐ |
| Fe wnes i ei brynu ond pasiodd ei ddyddiad cyn i mi gael cyfle i'w ddefnyddio | ❐ |
| Arall | ❐ |

Os wnaethoch chi roi "arall", dywedwch wrthym pam efallai eich bod wedi taflu bwyd mewn dyddiad allan i'r bin:

| |
|---|
| |

**Os wnaethoch chi daflu bwyd pasio ei ddyddiad allan i'r bin, pam aeth pasio'r dyddiad?**

*Dewiswch yr holl ddewisiadau sy'n berthnasol i chi. Os nad ydych wedi taflu bwyd sydd wedi pasio'r dyddiad i'r bin, gallwch fynd i'r cwestiwn nesaf.*

| | |
|---|---|
| Fe wnes i ei brynu ac yna newid fy meddwl | ❒ |
| Fe wnes i ei brynu ar gyfer rhywun arall, ac nid oeddent ei eisiau (e.e. partner/priod, unrhyw blant yn yr aelwyd) | ❒ |
| Daeth fel rhan o becyn, ac nid oeddwn eisiau/angen y cyfan | ❒ |
| Fe wnes i ei brynu ar gynnig arbennig (e.e. costyngiad sticeri melyn neu Too Good To Go) ond yna newid fy meddwl | ❒ |
| Fe wnes i ei brynu, ac yna sylweddoli fod yna gynhwysyn neu alergen ynddo nad ydw i'n gallu ei fwyta | ❒ |
| Fe wnes i ei brynu ond pasiodd ei ddyddiad cyn i mi gael cyfle i'w ddefnyddio | ❒ |
| Arall | ❒ |

Os wnaethoch chi roi "arall", dywedwch wrthym pam efallai eich bod wedi taflu bwyd pasio'r dyddiad allan i'r bin

**Os ydych chi wedi taflu bwyd i'ch bin/sachau gwastraff, beth wnaeth eich atal chi rhag ei roi yn eich bin ailgylchu bwyd?**

*Dewiswch yr holl ddewisiadau sy'n berthnasol i chi. Os nad ydych wedi taflu bwydi'r bin gwastraff cyffredinol, gallwch fynd i'r cwestiwn nesaf.*

| | |
|---|---|
| Dydw i ddim yn hoffi gwahanu'r cynnwys o'r pecyn | ❒ |
| Mae'r bwyd dw i'n ei daflu allan yn rhy wlyb i fynd yn y bin ailgylchu bwyd (e.e. iogwrt) | ❒ |
| Mae'r bwyd dw i'n ei daflu allan yn rhy drewllyd i fynd yn y bin ailgylchu bwyd (e.e. pysgod pydredig) | ❒ |
| Arall | ❒ |

Os ydych chi'n rhoi "arall", dywedwch wrthym efallai pam wnaethoch daflu bwyd allan i'ch bin/sach gwastraff cyffredinol:

**Ydych chi erioed wedi cyfrifo cost yr holl fwyd rydych yn ei daflu i'r bin?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Do | ❒ |
| Naddo | ❒ |

**Mae teulu cyffredin yn gwastraffu tua £83 o fwyd bob mis. A fyddai gennych ddiddordeb mewn dysgu sut y gallwch leihau'r swm yma?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Byddai - Byddai gen i ddiddordeb gwybod sut i leihau'r cyfanswm o fwyd sy'n cael ei daflu i'r bin | ❒ |
| Na fyddai - does gen i ddim diddordeb | ❒ |

**Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi pan rydych yn mynd i siopa?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Rydw i'n chwilio am becynnau y gellir eu hailddefnyddio neu eu hail-lenwi gymaint â phosib, a dyma fy opsiwn dewisol | ❒ |
| Rydw i'n dewis cynnyrch gyda'r cyn lleied o becyn â phosib neu becynnau y gellir eu hailgylchu'n llwyr, pan fo'n bosib | ❒ |
| Rydw i'n prynu'r opsiwn rhataf beth bynnag y pecyn | ❒ |
| Rydw i'n prynu'r dewis mwyaf cyfleus | ❒ |
| Dydw i ddim yn talu sylw i'r pecyn | ❒ |

**Oes gennych chi unrhyw syniadau neu awgrymiadau o ran sut ddylai'r Cyngor helpu preswylwyr i wneud dewisiadau wrth brynu sy'n creu llai o wastraff yn y lle cyntaf?**

# Ein blaenoriaethau ar gyfer atgyweirio ac ailddefnyddio

Rydym yn gwybod y gallai tua 12% o gynnwys biniau/sachau gwastraff cyffredinol fod wedi cael ei ailgylchu mewn Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Cartref, gan gynnwys cyfarpar trydan bach megis tegelli, ffannau a thostwyr, ac eitemau mwy sydd wedi torri, ac eitemau nad oes modd eu hailgylchu wrth ymyl y ffordd, megis darnau mwy o blastig.

Hoffwn ehangu ein cynlluniau atgyweirio ac ailddefnyddio er mwyn lleihau'r cyfanswm o'r math hwn o wastraff sy'n cael ei roi mewn bin/sachau gwastraff cyffredinol.

**Hoffwn i chi edrych ar bob un o'n blaenoriaethau ar gyfer atgyweirio ac ailddefnyddio, a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda nhw:**

Dewiswch un opsiwn yn unig ym mhob rhes

| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Cynyddu'r eitemau sy'n cael eu hailddefnyddio drwy ein siopau ailddefnyddio presennol | ❐ | ❐ |
| Addysgu pobl a gwella eu gwybodaeth am fuddion ailddefnyddio ac atgyweirio | ❐ | ❐ |
| Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol i ailddefnyddio, ac annog rhoddion ar gyfer cynlluniau ailwerthu. | ❐ | ❐ |
| Gweithio gyda phrosiectau cymunedol, sefydliadau a mentrau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo ailddefnyddio ac atgyweirio | ❐ | ❐ |
| Edrych ar sut y gall cynllunio ailddefnyddio gefnogi prosiectau adfywio canol trefi | ❐ | ❐ |
| Archwilio sut y gallwn wneud ardaloedd ailddefnyddio yn fwy gweledol mewn Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref | ❐ | ❐ |

# Deall eich arferion mewn perthynas ag atgyweirio ac ailddefnyddio

Bydd y cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall beth yw eich arferion presennol ac a fyddai unrhyw o'n mentrau arfaethedig yn eich helpu i arbed arian a lleihau gwastraff.

**Os yw eitem yn eich cartref yn torri, neu mae gennych ddillad sydd angen eu trwsio, a fyddech chi'n…?**

- Gallai **eitemau bach** gynnwys eitemau megis tegelli, tostwyr, microdonnau, cymysgwyr bwyd, lampau, fannau, setiau teledu, radios, ac ati
- Gallai **dillad ac ategolion** gynnwys dillad, esgidiau/bŵts, bagiau, gemwaith ac ati

Rydym yn deall y gall eich ymateb amrywio yn dibynnu ar yr eitem dan sylw, ond dewiswch yr opsiwn yr ydych yn meddwl byddai eich camau **mwyaf tebygol**.

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Ymgeisio i atgyweirio fy hun | ❒ |
| Gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu os ydynt yn gallu ei drwsio | ❒ |
| Ei gymryd i Gaffi Atgyweirio, neu fenter gymunedol debyg | ❒ |
| Talu i gael trwsio'r eitem gan grefftwr addas | ❒ |
| Ei werthu neu ymgeisio i'w werthu (e.e. Vinted, Gumtree, eBay, Facebook Marketplace) fel "darnau sbâr i atgyweirio" | ❒ |
| Ei roi i rywun arall (e.e. Facebook, Gumtree, Freecycle) neu ei gymryd i siop elusen | ❒ |
| Ei ailgylchu | ❒ |
| Ei daflu i mewn i'r gwastraff cyffredinol | ❒ |

**Os oes angen atgyweirio eitem fawr neu eitem swmpus o ddodrefn, a fyddech chi'n…?**

- Gallai **eitemau mawr** gynnwys pethau fel peiriannau golchi dillad, peiriannau golchi llestri, oergelloedd, rhewgelloedd a setiau teledu.
- Gallai **dodrefn swmpus** gynnwys eitemau megis gwelyau, soffas, cypyrddau, cist ddroriau, ac ati.

Rydym yn deall y gall eich ymateb amrywio yn dibynnu ar yr eitem dan sylw, ond dewiswch yr opsiwn yr ydych yn meddwl fyddai eich camau **mwyaf tebygol**.
*Dewiswch un opsiwn yn unig*

*Dewiswch un opsiwn yn unig*

| | |
|---|---|
| Ymgeisio i atgyweirio fy hun | ❐ |
| Gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu os ydynt yn gallu ei drwsio | ❐ |
| Ei gymryd i Gaffi Atgyweirio, neu fenter gymunedol debyg | ❐ |
| Talu i gael trwsio'r eitem gan grefftwr addas | ❐ |
| Ei werthu neu ymgeisio i'w werthu (e.e. Vinted, Gumtree, eBay, Facebook Marketplace) fel "darnau sbâr i atgyweirio" | |
| Ei roi i rywun neu ymgeisio i'w roi i rywun am ddim (e.e. Facebook, Gumtree, Frecycle) | |
| Byddaf yn ei gymryd i'r ganolfan ailgylchu leol fy hun | |
| Byddaf yn archebu casgliad gwastraff swmpus neu wasanaeth sgip | |

**Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fentrau atgyweirio/ailddefnyddio megis Caffis Atgyweirio yn eich ardal?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Ydw, dw i'n ymwybodol ohonynt, ac wedi eu defnyddio | ❐ |
| Ydw, dw i'n ymwybodol ohonynt, ond erioed wedi eu defnyddio | ❐ |
| Nac ydw, dydw i ddim yn ymwybodol ohonynt | ❐ |

**Pe bai menter atgyweirio ac ailddefnyddio yn cael ei hyrwyddo yn eich ardal leol, a fyddech yn ei defnyddio?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Byddwn yn rhoi cynnig arni | ❐ |
| Ni fyddai gen i ddiddordeb | ❐ |

**Os FYDDECH chi'n defnyddio cynllun atgyweirio neu ailddefnyddio lleol, faint fyddai pellter teithio rhesymol i chi i ymweld â menter o'r fath?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig. Os na fyddai gennych ddiddordeb mewn defnyddio cynllun atgyweirio neu ailddefnyddio lleol, gallwch adael y cwestiwn hwn yn wag.*

| | |
|---|---|
| Byddai iddo fod yn lleoliad parhaol neu alw heibio yn fy ninas, tref, pentref neu gymuned yn benodol | ❐ |
| Byddwn yn teithio ychydig o filltiroedd neu i'r dref fwyaf agosaf (e.e. os byddwn yn byw yn Rhewl, efallai y byddwn yn teithio i Ruthun, neu os ydw i'n byw yn Nyserth, efallai y byddwn yn teithio i Brestatyn) | ❐ |
| Byddwn yn hapus i ymweld â'm canolfan ailgylchu agosaf os oeddwn yn gwybod bod y fath gyfleuster ar gael | ❐ |
| Byddai angen i mi allu archebu a thalu ar gyfer casgliad i, ac o fy nghartref | ❐ |

**Os ydych chi'n meddwl NA FYDDECH chi'n defnyddio cynllun atgyweirio neu ailddefnyddio, beth fyddai yn eich atal rhag gwneud?**

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Os ydych chi'n teimlo Y BYDDECH yn defnyddio cynllun atgyweirio neu ailddefnyddio, gallwch adael y cwestiwn hwn yn wag*

| | |
|---|---|
| Mae disodli eitem sydd wedi torri yn gynt | ❐ |
| Mae eitem sydd wedi torri yn gyfle i uwchraddio | ❐ |
| Petai'r eitem sydd wedi torri yn rhywbeth na fyddwn yn defnyddio mwyach, ni fyddwn yn ei atgyweirio na'i ddisodli | ❐ |

**Os byddai angen i chi ddisodli eitem yn llwyr, beth fyddai eich dewis cyntaf…?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Gwirio safleoedd gwerthu ar-lein megis Facebook Marketplace, Vinted, Gumtree, eBay neu Freecycle i ganfod eitem ail law am ddim neu'n rhatach na'r pris am un newydd | ❐ |
| Gwirio siopau ailddefnyddio yn fy nghanolfan ailgylchu lleol, siopau elusen neu fenter gymunedol atgyweirio/ailddefnyddio i ganfod eitem ail law sy'n rhatach na'r pris am un newydd | ❐ |
| Prynu un newydd | ❐ |

**A fyddech chi'n ystyried defnyddio Llyfrgell Pethau i gynnal swyddi anaml neu untro o amgylch eich cartref?**

- Mae Llyfrgell Pethau yn llyfrgell fenthyca o offer i'w llogi.
- Gall Llyfrgelloedd Pethau gynnwys offer DIY megis dril, stemar papur wal, offer garddio megis peiriannau torri a strimio gwaith, ac offer cegin megis cymysgwyr
- Fel arfer, mae benthyg a dychwelyd eitemau am ddim.
- Rydym yn gwybod bod Llyfrgelloedd Pethau wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus mewn rhai lleoliadau o fewn Sir Ddinbych a thu hwnt.
- Mae gennym ddiddordeb mewn gweld a fyddai'r fath gynlluniau yn cael eu cefnogi'n ehangach.

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Byddai gen i ddiddordeb | ❐ |
| Na, byddai'n well gen i brynu fy offer fy hun a'i fenthyg gan aelod o'r teulu neu ffrind | ❐ |
| Na fyddai, byddwn yn debygol o fyn i grefftwr wneud y math hwnnw o waith | ❐ |

**Os byddech chi'n gwybod am gynllun lleol sy'n cynnig dosbarthiadau ar sut i wneud mân atgyweiriadau megis newid ffiws, disodli gwregys gyrru ar beiriant torri gwaith ac ati… a fyddai gennych ddiddordeb mewn mynychi i ddysgu mwy?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Byddai | ❐ |
| Na fyddai | ❐ |

**Ydych chi'n ymwybodol o Lyfrgelloedd Pethau lleol, neu fentrau cymdeithasol atgyweirio/ailddefnyddio eraill yr ydych yn meddwl y gallai'r Cyngor sefydlu perthynas gydweithredol gyda nhw?**

*Nodwch eich ateb isod os gwelwch yn dda. Os nad ydych yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau yn eich ardal, gallwch adael y blwch yn wag.*

**Oes yna unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl y gallai'r Cyngor ei wneid i helpu pobl i ddewis i atgyweirio ac ailddefnyddio eitemau cyffredin yn hytrach na'u disodli?**

*Nodwch eich ateb isod os gwelwch yn dda. Os na allwch chi feddwl am unrhyw beth, gallwch adael y blwch yn wag.*

# Ein blaenoriaethau ar gyfer ailgylchu a gwastraff

Dylid defnyddio casgliadau ailgylchu gwastraff cartref a gweddillol ar gyfer gwaredu ar eitemau neu ddefnyddiau nad oes modd eu hosgoi drwy ddefnyddio cynnyrch gwahanol, atgyweirio neu ailddefnyddio eitemau ar gyfer rhywbeth arall.

**Hoffwn i chi edrych ar bob un o'n blaenoriaethau ar gyfer ailgylchu a gwastraff, a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda nhw:**

*Dewiswch un opsiwn yn unig ym mhob rhes*

| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu megis plastigion hyblyg o'r cartref | ❐ | ❐ |
| Helpu pobl nad ydynt yn ailgylchu eu gwastraff bwyd i wneud mwy | ❐ | ❐ |
| Adolygu ein gwybodaeth am ailgylchu er mwyn ei gwneud yn glir ac yn hawdd ei deall | ❐ | ❐ |
| Cefnogi ymgyrchoedd ailgylchu cenedlaethol megis Bydd Wych...Ailgylcha, Wythnos Ailgylchu ac Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd | ❐ | ❐ |
| Gwella ailgylchu mewn fflatiau a thai sy'n cael eu rhannu | ❐ | ❐ |
| Defnyddio data o'n gwasanaeth i weld pa feysydd sydd angen i ni ganolbwyntio arnynt | ❐ | ❐ |
| Sicrhau bod gwybodaeth yn ein Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref yn glir ac yn hawdd ei deall | ❐ | ❐ |
| Sicrhau bod staff Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref yn cynnig safleoedd yn eu safleoedd | ❐ | ❐ |
| Ehangu casgliadau ailgylchu i fwy o fusnesau | ❐ | ❐ |
| Casglu adborth gan gwsmeriaid i ganfod lle maent angen mwy o gefnogaeth | ❐ | ❐ |
| Defnyddio addysg a chamau gorfodi pan fo'r angen | | |

# Deall eich arferion o ran eich casgliadau ailgylchu a gwastraff

- Rydym yn gwybod y byddai ychydig dan hanner o'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn biniau neu sachau ar gyfer gwastraff nad oes modd ei ailgylchu wedi gallu cael ei ailgylchu mewn cynwysyddion ailgylchu cartref eraill, gan gynnwys oddeutu 30% o wastraff, megis poteli, tybiau a hambyrddau, caniau metel, papur a chardbord.
- Hoffem ofyn rhai cwestiynau i'n helpu ni ddeall eich gwybodaeth ynghylch beth ellir ac nad ellir ei ailgylchu

**Pa mor hyderus ydych chi am beth y gellir ac nad ellir ei ailgylchu yn Sir Ddinbych?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Rydw i'n meddwl fy mod i'n gwybod lle mae popeth yn mynd | ❐ |
| Rydw i'n gwybod lle mae'r mwyafrif o bethau yn mynd, ond mae rhai pethau yn fy nrysu | ❐ |
| Nid ydw i'n sicr lle mae unrhyw beth yn mynd | ❐ |

**If you aren't sure where things go, do you...?**

*Aildrefnwch y dewisiadau hyn o'r mwyaf i'r lleiaf tebygol drwy ysgrifennu rhif yn y blwch ar y dde.*

*1 fydd y* ***mwyaf tebygol*** *a 6 fydd y* ***lleiaf tebygol***

| | | Ysgrifennwch eich rhif yma |
|---|---|---|
| 1. | Dewis y cynhwysydd ailgylchu yr wyf yn meddwl ei fod fwyaf tebygol o berthyn iddo os nad ydw i'n 100% sicr | |
| 2 | Ei roi yn y gwastraff cyffredinol (bin olwyn neu sachau) | |
| 3 | Gwirio gwefan y Cyngor neu ofyn i ffrind | |
| 4 | Chwilio ar-lein, ar Google er enghraifft | |
| 5 | Defnyddio system Deallusrwydd Artiffisial (AI) megis ChatGPT, Microsoft Copilot neu Google Gemini | |
| 6 | Rhywbeth arall:<br>*Ysgrifennwch eich atebion yn y blwch* | |

**Os ydych chi'n taflu eitemau allan i'r bin/sach gwastraff cyffredinol yr ydych yn gwybod y gellir eu hailgylchu, ydi hyn oherwydd ...?**

*Dewiswch yr holl ddewisiadau sy'n berthnasol i chi.*

| | |
|---|---|
| Mae'r eitemau'n fudur ac nid ydw i eisiau eu glanhau | ❒ |
| Rydw i wedi llenwi'r Trolibocs neu gynwysyddion eraill | ❒ |
| Does gen i ddim amser i ddidoli eitemau i'w hailgylchu | ❒ |
| Unrhyw reswm arall | ❒ |

Os wnaethoch chi roi rheswm arall, dywedwch wrthym yn y blwch isod:

**Mae gennym Ganllawiau Ailgylchu A i Y ar ein gwefan:**

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/biniau-ac-ailgylchu/a-i-y/a-i-y.aspx

**A oes unrhyw beth ar y rhestr hon yr hoffech wybod a oes modd ei ailgylchu?**

Gwahanwch unrhyw eitemau yr hoffech wybod amdanynt gydag atalnod os ydych chi'n rhestru mwy nag un.

Er enghraifft:
*Ffilm glynu, potiau plannu, pecynnau meddyginiaeth*

**Pa mor aml ydych chi'n ymweld â Chanolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Cartref er mwyn gwaredu gwastraff ac ailgylchu cartref?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Yn aml (mwy nag 1-2 gwaith y mis) | ❒ |
| Anaml (llai nag unwaith y mis) | ❒ |
| Dydw i ddim yn ymweld â HWRCs | ❒ |

**Os ydych chi'n ymweld â HWRCs, ydych chi'n *<u>bennaf</u>* yn cymryd...?**

*Dewiswch ddim mwy na* ***dau*** *opsiwn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n cael ei gymryd fwyaf i HWRCs.*

| | |
|---|---|
| Pethau y gellir eu hailgylchu o'r cartref, ond mae gormod i'w roi yn fy nghynwysyddion ailgylchu (e.e. cardbord) | ❒ |
| Pethau nad oes modd eu hailgylchu mewn casgliadau cartref, ond mae modd eu hailgylchu (e.e. offer trydanol mawr, eitemau plastig caled) | ❒ |
| Pethau nad oes modd eu hailgylchu o gwbl (e.e. bagiau ychwanegol o wastraff nad oes modd ei ailgylchu neu wastraff DIY) | ❒ |

**Os nad ydych, neu'n methu mynd i HWRCs, sut fyddech chi'n gwaredu ar eitemau swmpus?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Archebu casgliad gwastraff swmpus gan y Cyngor | ❒ |
| Llogi casglwr gwastraff masnach trwyddedig a gofyn am brawf o'u trwydded a nodyn trosglwyddo gwastraff | ❒ |
| Llogi unigolyn neu gwmni a fyddai'n casglu fy ngwastraff am y pris rhataf posib | ❒ |
| Ceisio rhoi neu werthu'r eitem ar Facebook, Gumtree, eBay, Vinted neu Freecycle, ac ati | ❒ |

**Os ydych chi'n llogi masnachwr neu gwmni preifat i gasglu gwastraff o'ch cartref, ydych chi'n ymwybodol mai CHI sy'n gyfrifol am y gwastraff nes bod nodyn trosglwyddo gwastraff wedi cael ei lunio gan gasglwr gwastraff masnach trwyddedig?**

*Dewiswch un opsiwn yn unig.*

| | |
|---|---|
| Ydw, rydw i'n ymwybodol o hyn | ❒ |
| Nac ydw, nid oeddwn yn ymwybodol o hyn | ❒ |

**Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech i'r Cyngor ystyried wrth gefnogi preswylwyr gyda chasgliadau ailgylchu a gwastraff o'r cartref, neu fynediad i Ganolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref?**

*Soniwch am ddewisiadau yn y dyfodol ar gyfer casgliadau ailgylchu a gwastraff o'r cartref, neu fynediad i Ganolfannau Ailgylchu a Gwastraff yn eich ymatebion yn unig.*

*Mae dewis ar y dudalen nesaf i chi ysgrifennu unrhyw sylwadau terfynol/cyffredinol.*

**Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill am ein cynllun pum mlynedd?**

## Diolch. Rydych chi wedi cwblhau prif ran yr arolwg.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech hefyd gymryd yr amser i ddweud ychydig wrthym amdanoch eich hun drwy ateb rhywfaint o ddata monitro cydraddoldeb safonol.

Bydd deall pwy ydych chi yn ein helpu ni i amlygu themâu cyffredin yn y ffordd yr hoffech chi i ni ymgysylltu e.e. os oes unrhyw fater yn effeithio ar gymuned benodol.

**Beth yw eich oed?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❐ 0-15 mlwydd oed
- ❐ 25-34 mlwydd oed
- ❐ 45-54 mlwydd oed
- ❐ 65-74 mlwydd oed
- ❐ Gwell gen i beidio â dweud
- ❐ 16-24 mlwydd oed
- ❐ 35-44 mlwydd oed
- ❐ 55-64 mlwydd oed
- ❐ 75 mlynedd a hŷn

**Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❐ Cymreig
- ❐ Saesneg
- ❐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ❐ Prydeinig
- ❐ Gwyddelig
- ❐ Albanig
- ❐ Gwell gen i beidio â dweud

❐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

**Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un ateb sy'n disgrifio eich cefndir ethnig orau**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

- ❐ Gwyn
- ❐ Cymysg -Gwyn a Du Caribïaidd
- ❐ Cymysg -Gwyn a Du Affricanaidd
- ❐ Du -Caribïaidd
- ❐ Cefndir Du arall
- ❐ Asiaidd -Bangladesiaidd
- ❐ Asiaidd -Tsieineaidd
- ❐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- ❐ Cymysg -Gwyn Caribïaidd
- ❐ Unrhyw gefndir amryfal / cymysg arall
- ❐ Du -Affricanaidd
- ❐ Asiaidd -Indiaidd
- ❐ Asiaidd -Pacistanaidd
- ❐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall
- ❐ Gwell gen i beidio â dweud

❐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch os gwelwch yn dda)

**Sut fyddech chi'n eich disgrifio eich hun orau?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Dyn ❒ Dynes ❒ Gwell gen i beidio â dweud

❒ Rydw in meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall (dywedwch wrthym, os hoffech)

**Pa un o'r termau canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Heterorywiol/ Strêt ❒ Dyn Hoyw ❒ Dynes hoyw / Lesbiaidd ❒ Deurywiol/Bi ❒ Gwell gen i beidio â dweud

❒ Arall (dywedwch wrthym, os hoffech)

**Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

**Beth yw eich crefydd neu gred?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Dim crefydd
❒ Mwslim
❒ Iddewiaeth
❒ Anffiddiwr
❒ Cristnogaeth
❒ Bwdhaeth
❒ Siciaeth
❒ Gwell gen i beidio â dweud

❒ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

**Anabledd**
Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd os:

1. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
2. bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?**

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

**Gofalu:**

Ydych chi'n gofalu am neu'n helpu aelodau'ch teulu, ffrindiau, cymdogion neu bobl eraill oherwydd:

- Cyflwr neu anabledd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor
- Problemau sy'n gysylltiedig â henaint

Ticiwch **un opsiwn yn unig**

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

## Diolch am eich amser

Bydd eich barn yn hanfodol i'n helpu i gwblhau ein cynllun pum mlynedd ar gyfer ailgylchu a gwastraff yn Sir Ddinbych..